# Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin De Cymru

## SWaWR (2)-01-06 (p. 5)

### Dyddiad: Dydd Gwener 17 Mawrth 2006
### Amser: 9:30am tan 12:30pm
### Lleoliad: Neuadd Les Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr
### Teitl: Bagloriaeth Cymru

**Manteision**

- Cyffrous - gyda llawer o fanteision. Y fantais fwyaf falle yw ei fod yn cydnabod beth mae’r disgyblion yn gwneud yn barod a chydnabod gwerth profiadau sydd ddim yn cael eu cydnabod mewn ffordd arall.
- Adeiladu ar arferion da a chydnabod profiadau a sgiliau eang
- Llawer o ysgolion/colegau’n barod yn cynnig profiadau eang i bobl ifanc o waith elusennol, gwaith menter a busnes, cyfleodd i gyd-weithio a chyfleodd i ddatblygu sgiliau allweddol.
- Mae’r Bagloriaeth yn rhoi cyfle iddynt gael hyn oll wedi’i gydnabod.
- Yn gweithio’n dda ble roedd ysgolion yn barod wedi datblygu strwythur ar gyfer gwaith cymunedol/gwirfoddol, sgiliau allweddol.
- Staff yn croesawu cymhwyster sydd yn cydnabod profiadau/sgiliau sydd yn anodd eu mesur ac yn galluogi disgyblion i ddysgu mwy am Gymru, Ewrop a’r Byd.
- Annog datblygu amrywiaeth o sgiliau
- Amrywiaeth o brofiadau
- Defnyddiol i ddisgyblion - o ran datblygu sgiliau amrywiol, cael profiadau diddorol a magu hyder - oll yn bwysig ar gyfer y dyfodol p’un ai gwneud cais ar gyfer y Brifysgol neu fynd i fyd gwaith a gwneud cais am swydd neu hyfforddiant.
- Gwerth 120 pwynt UCAS cyfystyr ag "A" mewn pwnc safon A (chwech sgil allweddol + Bagloriaeth lawn) - hwn yn ffordd dda o werthu’r syniad i ddisgyblion a rhieni.
- Sgil Estynedig: annog disgyblion i ddatrys problemau, i fod yn fentrus a chreu menter ac i gyd-weithio gydag eraill
- Gwerth – rhoi ehangder a chydbwysedd – e.e. os cymryd 3 phwnc gwyddonol mae’n gorfodi disgyblion i wneud rhywbeth gwahanol iawn.
- Llawer o waith ond mae’r disgyblion yn elwa ohono.
- (Un ysgol wedi son am ganiatáu disgyblion i astudio dim ond 3 phwnc UG + y Bagloriaeth gan fod 4 pwnc + y Bagloriaeth yn rhy drwm) Her
- Tebygol mai’r sefydliadau sydd wedi gwneud llawer gyda’r Sgiliau Allweddol ers 2000 ac sydd yn barod yn cynnig profiadau eang sydd yn mynd i’w ffeindio’n haws i addasu ar gyfer y Bagloriaeth.
- Angen strwythur cadarn ar gyfer rhai sgiliau e.e. gwersi rhif, sgiliau eraill yn gallu dod allan o’r

pynciau.

**Angen amser - o leiaf Blwyddyn i baratoi ymlaen llaw am her y Bagloriaeth.**

- Rôl ac amser y Mentor yn fater allweddol
- Y 6 sgil allweddol yw'r her fwyaf mewn rhai sefydliadau.
- Er mwyn sicrhau pwyslais digonol ar y Sgiliau Allweddol rhaid amserlenni rhai gwersi - cost ychwanegol.
- Aseiniad 6,000 o eiriau - testun yn ymwneud â Chymru a chymharu gwlad arall - croesawu'r aseiniad/ ymchwil/ ehangu gwybodaeth y bobl ifanc ond marcio a safoni'r rhain yn waith ychwanegol - rhaid hefyd rhyddhau staff i safoni - cost ychwanegol.
- Cost ychwanegol hefyd - tiwtor personol (mentor), ffeindio amser mentora, elfen iaith ac ati. Mwy costus o ran staffio/amserlenni/tiwtor
- Lot i gymryd (rhy drwm falle) os disgwyl i ddisgyblion gymryd 4 pwnc UG.
- Annhegwch Disgyblion wedi codi hyn:

  o 6 Sgil Allweddol ar lefel 3 = 120 pwynt UCAS

  o y Bagloriaeth = 120 pwynt UCAS

- Mae angen ymchwilio i mewn i hyn a falle rhoi mwy o bwyntiau i'r Bagloriaeth neu ddodi llai o sgiliau allweddol yn y Bagloriaeth.
- Os methu un elfen ddim yn cael y Bagloriaeth o gwbl - hwn i weld yn annheg iddynt.

## Marchnata

- Gorfod perswadio rhieni/disgyblion weithiau bod ef o werth (mwy o waith marchnata i'w wneud i rieni, disgyblion, ysgolion, Prifysgolion ac ati)
- Rhaid gwerthu fe fel cymhwyster sydd yn ddeniadol i Brifysgolion.
- Angen mwy o farchnata i godi ymwybyddiaeth rhai Prifysgolion (mae'r hen Brifysgolion e.e. Rhydychen, Caergrawnt, Caerfaddon a Phrifysgolion Cymru yn gwybod amdano ond rhaid gwneud mwy o waith i hysbysu prifysgolion eraill amdano a'r manteision o dderbyn myfyriwr sydd wedi ennill y cymhwyster).

## Addysg Galwedigaethol

## Datblygiadau

- Hyd yn oed ble mae'r cwricwlwm academaidd yn gweithio'n dda iawn mae yna elfen ddadrithiedig ble nad yw'r cwricwlwm yn addas ar gyfer canran o ddisgyblion. Efallai bod mwy o alw am ddatblygu'r ochr galwedigaethol mewn ardaloedd difreintiedig ond mae angen eu datblygu hefyd mewn ysgolion lle mae'r cwricwlwm academaidd yn gweithio'n dda i'r mwyafrif.

- Enghreifftiau da nawr o sefydliadau yn cyd-weithio er mwyn darparu cyrsiau galwedigaethol e.e. ysgolion a cholegau addysg bellach, ysgolion a’i gilydd, ysgolion a’r gweithle, ysgolion, colegau a’r gweithle - er mwyn hybu mwy o gyrsiau galwedigaethol a mwy o gyrsiau cyfrwng Cymraeg.
- Sôn am nifer o gyrsiau e.e. adeiladwaith, peirianneg, plwmio, trin gwallt, harddwch, gofal plant, twristiaeth ac ati.
- Rhaid sicrhau bod y cyrsiau o safon dda.

## Cyrsiau Cyfrwng Cymraeg

- Rhaid sicrhau bod beth sydd yn cael ei gynnig o safon ac ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwell cael llai o gyrsiau ond rhai da.
- Medrau staff: positif bod sefydliadau yn adnabod y cyfle nawr i gyd-weithio a chyd-ddarparu cyrsiau cyfrwng Cymraeg (pwysig nodi beirniadaeth Estyn o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y Colegau Addysg Bellach).
- Mewn rhai ardaloedd mae yna staff sydd yn medru dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg mewn eraill rhai yn hapus i siarad yn y Gymraeg ond ddim i ddarparu’r cwrs a deunyddiau’r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. A oes hyfforddiant ar gael i ddatblygu eu sgiliau?
- Mae angen edrych ar yr elfen yma os am ddatblygu’r cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ydy’r byrddau arholi’n gallu darparu arholiadau/dulliau asesu cyfrwng Cymraeg mewn amrywiaeth i gyrsiau galwedigaethol?
- Problemau ffeindio partneriaid sydd yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Y Cyd-destun Gwledig:

- Problemau amserlenni ar y cyd - oherwydd pellter.
- Dogfen Llwybrau Dysgu’n ddogfen ddinesig sydd ddim yn dangos ystyriaeth ddigonol o sefyllfa sefydliadau cefn gwlad.
- Camau wedi cymryd i symud ymlaen - cyd-weithio a phartneriaethau e.e. fideo- gynadledda ond mae hyn yn gweithio’n dda o dan amodau arbennig:

    o Plant wedi ysgogi (a dim problemau disgyblaeth)

    o Deunyddiau cwrs safonol ar gael

    o Gallu e-bostio’r tiwtor a bod y tiwtor yn gallu gosod a marcio gwaith ar lein.

    o Tiwtor yn gallu gwneud ymweliadau ysbeidiol i’r disgyblion

    o Athro yn yr ysgol yn gallu gweithredu fel person cyswllt a rhoi cefnogaeth bersonol o fewn yr ysgol

- (Nid o reidrwydd felly'r ffordd gorau i bobl ifanc sydd yn barod wedi dadrithio) Rhaid buddsoddi

mewn fideo gynadledda, hyfforddi staff ar hyn ac ar arferion da.
- Haws i'r ysgolion hynny sydd o fewn cyrraedd tref i gyd-weithio. Mae'r rhai sydd yn bell o'r trefi yn cael hi'n fwy anodd i weithio gyda phartneriaid.
- ELWa'n pwysleisio ni ddylid dyblygu darpariaeth oherwydd cost OND mae'n rhatach mewn rhai ardaloedd i e.e. sefydlu gweithdy yn yr ysgol na thalu'r holl gostau eraill fel teithio i'r dref agosaf (gan gofio hefyd y gwastraff o amser y disgyblion yn teithio nôl ac ymlaen a'r problemau amserlenni ychwanegol oherwydd y pellter).
- ELWa'n anhyblyg am hyn ond mae'r meddylfryd yn dangos diffyg dealltwriaeth o addysg yn yr ardaloedd gwledig.
- Pynciau galwedigaethol - rhaid cyfyngu niferoedd mewn grwpiau am resymau Iechyd a Diogelwch.
- Costau ac amser teithio – i gyflogwr/ coleg – ble mae partneriaid addas i gael.
- Problemau darganfod partneriaid addas – yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sut mae modd cynnal y datblygiad gyda niferoedd plant yn cwympo?
- Cost cudd o gynnal y cyrsiau eraill hefyd. (h.y. cynnig cwricwlwm mwy eang ond i lai o ddisgyblion yn y pendraw?)
- A oes perygl i ddyfodol rhai pynciau traddodiadol?
- Yn y rhethreg mae'r pwyslais ar gwricwlwm sydd yn ateb anghenion y myfyriwr, yn "ddisgybl canolog", mae pwyslais hefyd ar anghenion y "cyflogwr" - ond does dim pwyslais o gwbl ar yr addysgwyr. Hwn yn pryderu ni fel undeb sydd yn cynrychioli athrawon a darlithwyr oherwydd mae yna oblygiadau o ran llwyth gwaith, straen, statws ac efallai amodau gwaith. Hefyd credwn yn gryf bod yr addysgwr a'r berthynas rhwng yr addysgwr a'r dysgwr yn allweddol i lwyddiant ym myd addysg.

## Ariannu

- Ariannu – bodolaeth a threfn ELWa dal yn peri pryder, ol-16.
- ELWa'n annog gweithio mewn partneriaeth - ond mae arian ar gael i sefydlu'r cwrs trwy gydweithio ond ansicrwydd mawr am y dyfodol.
- Llwybrau Dysgu yn pwysleisio bod rhaid cael gwared â'r cystadlu rhwng sefydliadau e.e. ysgolion , colegau a'i gilydd ond hwn yn anodd pan mae dal cystadleuaeth am arian. Rhaid edrych eto ar yr ariannu yn ôl niferoedd disgyblion a grantiau arbennig ELWa ar gyfer sefydlu cwrs trwy gyd-weithio.
- Cost cudd: Pynciau academaidd yn cael eu gwasgu o ran niferoedd falle er mwyn darparu dosbarthiadau llai ar gyfer pynciau galwedigaethol.
- Siroedd wedi gorfod llenwi set o ffurflenni i'r Cynulliad ar gyfer 14-16 a set o ffurflenni i ELWa i gyfiawnhau gwariant ol-16. Hwn yn llwyth gwaith diangen. Derbyn bod rhaid cael atebolrwydd ond hyn yn llwyth gwaith ychwanegol diangen.
- Siroedd wedi derbyn gwybodaeth yn barod o gyllid addysg 14-16 wrth y Cynulliad ond dal heb dderbyn gwybodaeth wrth ELWa am arian 16-19.
- Rhanbarthau ELWa fel petai nhw ddim yn cyfathrebu a'i gilydd. Disgwyl i siroedd/sefydliadau gynllunio heb dderbyn gwybodaeth am ariannu.

Elaine Edwards (Swyddog Polisi UCAC)